Cafodd eich hysbyseb y clic. Dyma'r hyn *a ddigwyddodd wedyn.*

Gwiriad Ymgyrch o un hyrwyddiad, y tudalennau yr arweiniodd atynt a'r llwybr archebu y tu ôl iddo, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda phris ar y gwaith trwsio yn nhrefn y niwed.

PARATOWYD AR GYFER
The Quay Inn
Tafarn ddychmygol, er enghraifft

PWNC
Hyrwyddiad swper Noson Tân Gwyllt
Gwiriwyd 19 Hydref 2026

PARATOWYD GAN
Tudorvale.Cymru
Enghraifft, fersiwn 1

Enghraifft yw hon

Nid yw The Quay Inn yn bodoli. Dyfeisiwyd pob canfyddiad, enw, dyddiad a phris yn y ddogfen hon i ddangos sut mae adroddiad Gwiriad Ymgyrch yn edrych a sut mae'n darllen. Nid oes dim yma'n disgrifio busnes go iawn, ac mae prisiau'r gwaith trwsio ar dudalen 4 yn rhai enghreifftiol. Mae eich adroddiad eich hun yn cario canfyddiadau go iawn a dyfynbrisiau go iawn.

01

Beth y buom yn edrych arno

Un hyrwyddiad, wedi'i ddilyn fel y byddai cwsmer yn ei ddilyn, ar ffôn, yn y ddwy iaith.

ENGHRAIFFT · LLEOLIAD DYCHMYGOL

Gofynnoch i ni wirio swper Noson Tân Gwyllt. Post Facebook yn Gymraeg ac yn Saesneg yw'r hyrwyddiad, poster printiedig gyda chod QR ar y bar ac yn y ffenest, a'r dudalen ddigwyddiadau ar eich gwefan. Buom yn tapio, sganio a llenwi popeth y gallai cwsmer ei wneud, ar iPhone ac ar ffôn Android, ddydd Iau 15 a dydd Gwener 16 Hydref.

3	5	2	7
lle mae'r hyrwyddiad yn ymddangos: Facebook, y poster, y dudalen ddigwyddiadau	tudalen y gall y cwsmer lanio arnynt, pob un wedi'i gwirio	iaith, wedi'u cymharu fesul llinell	canfyddiad, pedwar ohonynt yn werth eu trwsio cyn y penwythnos

Y fersiwn fer

Mae'r post yn gwneud ei waith. Mae pobl yn tapio arno: cafodd y dudalen ddigwyddiadau fwy o ymwelwyr yn yr wythnos ar ôl y post nag yn ystod mis Medi cyfan. Y drafferth yw'r hyn y maent yn ei ganfod pan gyrhaeddant. Mae'r post yn dweud "archebwch nawr" ac mae'r dudalen yn cynnig ffurflen nad oes neb yn ei hateb. Pris y llynedd sydd ar y wefan. Mae'r cod QR ar y poster yn mynd i dudalen nad yw'n bodoli mwyach. Nid oes dim o hyn yn anodd ei drwsio, a gwaith prynhawn yw'r rhan fwyaf ohono.

COCH · TRWSIO NAWR

Mae cwsmer sy'n dilyn yr hyrwyddiad heddiw yn cael ei gamarwain neu ei rwystro. Pedwar canfyddiad.

PORFFOR · TRWSIO CYN BO HIR

Mae'n gweithio, ond yn wael, neu mae'n cario risg sy'n werth ei chau. Dau ganfyddiad.

GLAS · IAWN

Wedi'i wirio ac yn gyson. Dim i'w wneud. Un canfyddiad, ac yn werth ei wybod.

Sut y buom yn gwirio

Buom yn cymharu pob rhif, dyddiad a honiad yn yr hyrwyddiad â'r hyn y dywedoch wrthym sy'n wir: £28 y pen, nos Sadwrn 7 Tachwedd, 7yh, tri chwrs, 40 o leoedd, archebu'n hanfodol. Buom yn dilyn pob dolen a'r cod QR ar ffôn. Llenwyd y ffurflen archebu ddwywaith, unwaith ym mhob iaith, ac arhoswyd am y cadarnhad. Darllenwyd y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr. Yna buom yn edrych ar bwy yn y dafarn sy'n gallu newid pob un o'r pethau hyn, a pha mor gyflym.

Yr hyn na wnaethom: rhoi cyngor cyfreithiol, clirio'r hysbyseb yn erbyn rheolau hysbysebu, na phrofi unrhyw beth na chawsom ganiatâd i'w brofi. Lle mae angen arbenigwr ar rywbeth, rydym yn dweud hynny.

02

Beth a ganfuom

Yn nhrefn y niwed i'r cwsmer, nid yn y drefn y daethom o hyd iddynt.

ENGHRAIFFT · LLEOLIAD DYCHMYGOL

1

Mae "archebwch nawr" yn arwain at ffurflen, ac mae'r ffurflen yn arwain i nunlle. (y llwybr o'r clic)

TRWSIO NAWR

Diflannodd ein dwy archeb brawf. Mae'r ffurflen ar y dudalen ddigwyddiadau yn anfon at gyfeiriad e-bost a sefydlwyd ar gyfer cyn-aelod o staff ac nad oes neb yn ei ddarllen mwyach. Mae'r cwsmer yn gweld "Diolch, byddwn mewn cysylltiad" ac yn clywed dim. Nid oes gennych ffordd o wybod faint o archebion sydd wedi mynd y ffordd hon ers i'r post fynd i fyny. Cyfeiriad gwahanol a neges gadarnhau sy'n cyrraedd mewn gwirionedd yw'r ateb.

2

Mae'r post yn dweud £28. Mae'r wefan yn dweud £26. (yr addewid)

TRWSIO NAWR

Mae'r dudalen ddigwyddiadau yn dal i ddangos pris y llynedd. Mae'r PDF bwydlen sydd â dolen o'r un dudalen yn dweud £28. Mae gan gwsmer sy'n archebu o'r wefan gan ddisgwyl £26 gŵyn deg ar y noson. Un llinell i'w newid, a dylai'r PDF bwydlen fod yr unig le y mae'r pris wedi'i ysgrifennu.

3

Mae'r cod QR ar y poster yn agor tudalen nad yw'n bodoli. (y llwybr o'r clic)

TRWSIO NAWR

Mae'n pwyntio at dudalen ddigwyddiadau'r llynedd, a ddilëwyd yn y gwanwyn. Mae'r ffôn yn dangos sgrin "tudalen heb ei chanfod" heb unrhyw ffordd yn ôl. Yn hytrach nag ailargraffu, gallwn wneud i'r hen gyfeiriad anfon pobl at y dudalen newydd, ac mae hynny hefyd yn achub unrhyw un sy'n dal i sganio posteri'r llynedd.

4

Mae'r dyddiad anghywir ar y post Cymraeg. (y ddwy iaith)

TRWSIO NAWR

Mae'r Saesneg yn dweud Saturday 7 November, mae'r Gymraeg yn dweud 8 Tachwedd. Mae popeth arall yn cyd-fynd. Llithriad teipio ydyw, ond ni fydd cwsmer Cymraeg sy'n cyrraedd ar y dydd Sul yn ei weld felly. Golygwch y post, a gwiriwch y poster Cymraeg yn y ffenest, na allem ei ddarllen o'r llun a anfonoch.

5

Mae'r ffurflen archebu yn anodd ei defnyddio ar ffôn. (y llwybr o'r clic)

TRWSIO CYN BO HIR

Mae'r blwch dyddiad yn agor calendr sy'n gorchuddio'r botwm "Anfon" ar iPhone, ac mae'r blwch maint parti yn derbyn llythrennau. Mae modd ei wneud, gydag amynedd. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn ffonio yn lle hynny, sy'n iawn cyn belled â bod rhywun yn ateb. Mae'n werth ei dacluso ar yr un pryd â chanfyddiad 1.

6

Nid eich llun chi yw'r llun coelcerth. (sut mae'n edrych)

TRWSIO CYN BO HIR

Ffotograff stoc yw'r ddelwedd ar y post a'r poster, ac ni allai neb ddweud wrthym o ble y daeth nac a dalwyd amdano. Mae hefyd yn edrych fel pob post coelcerth arall yn y sir. Mae gennych luniau da o noson y llynedd ar ffôn y dafarn. Defnyddiwch un o'r rheini ac mae'r cwestiwn yn diflannu.

7

Mae'r enw, y rhif ffôn, yr oriau agor a'r cyfeiriad i gyd yn cytuno. (yr addewid)

IAWN

Mae'r post, y wefan, y poster a'ch rhestr Google i gyd yn dweud yr un peth, ac mae'r rhif ffôn yn canu drwodd i'r bar. Dyma'r darn y mae'r rhan fwyaf o dafarndai yn ei gael yn anghywir, ac rydych chi wedi'i gael yn iawn.

03

Beth i'w drwsio gyntaf

Pris ar bob eitem ar ei phen ei hun. Dewiswch y rhai rydych eu heisiau. Mae'r £245 am y gwiriad hwn yn dod oddi ar y bil.

ENGHRAIFFT · PRISIAU ENGHREIFFTIOL

TRWSIO	BETH Y BYDDEM YN EI WNEUD	PRIS
1 · Gwneud i'r ffurflen eich cyrraedd	Pwyntio'r ffurflen archebu at gyfeiriad sy'n cael ei ddarllen bob dydd, anfon cadarnhad iawn at y cwsmer, ac anfon copi atoch chi. Ei phrofi yn y ddwy iaith cyn i ni ddweud ei bod wedi'i gwneud.	£90
2 · Un pris, un lle	Cywiro'r dudalen ddigwyddiadau a gwneud y fwydlen yr unig le y mae'r pris wedi'i ysgrifennu, fel mai un golygiad fydd newid y pris y flwyddyn nesaf, nid tri.	£45
3 · Achub y cod QR	Gwneud i gyfeiriad digwyddiadau'r llynedd anfon pobl at dudalen eleni. Dim angen ailargraffu, ac mae'r hen bosteri'n dal i weithio.	£45
4 · Cywiro'r dyddiad Cymraeg	Gallwch wneud hwn eich hunain mewn munud. Rydym wedi ysgrifennu'r llinell gywir isod fel mai gludo ydyw, nid ailteipio.	Am ddim
5 · Ffurflen sy'n gweithio ar ffôn	Rhoi blychau dyddiad a maint parti sy'n ymddwyn ar iPhone ac Android yn lle'r rhai presennol, cadw'r botwm Anfon yn y golwg, a dangos i'r cwsmer beth a archebodd.	£120
6 · Eich llun eich hun	Dewis a pharatoi un o luniau'r llynedd ar gyfer y post, y poster a'r dudalen, yn y maint cywir i bob un.	£40

Os gwnewch bopeth

£340 heb TAW, llai'r £245 rydych eisoes wedi'i dalu am y gwiriad hwn, felly £95 heb TAW i roi'r hyrwyddiad cyfan yn iawn. Gallwn gael eitemau 1 i 4 wedi'u gwneud o fewn dau ddiwrnod gwaith i'ch cadarnhad, sef cyn y penwythnos y mae'r post yn ei hyrwyddo.

Os gwnewch un peth

Gwnewch eitem 1. Mae ffurflen nad yw'n cyrraedd neb yn costio archebion i chi bob dydd y mae'r post yn fyw, ac nid oes dim arall ar y rhestr hon yn bwysig nes ei bod wedi'i thrwsio.

Y llinell Gymraeg gywir, yn barod i'w gludo

Noson Tân Gwyllt, nos Sadwrn 7 Tachwedd, 7yh. Tri chwrs, £28 y pen. Archebu'n hanfodol.

Enghraifft yn unig. Mewn adroddiad go iawn, ein hadolygydd Cymraeg rhugl sy'n ysgrifennu'r llinell hon, ac mae'n gwirio pob gair o Gymraeg a anfonwn.

Mae'r prisiau yn yr enghraifft hon yn rhai enghreifftiol. Mae adroddiad go iawn yn rhoi pris ar bob gwaith trwsio yn erbyn eich gwefan a'ch systemau chi. Nid yw'r prisiau'n cynnwys TAW.

04

Pwy sy'n ei gadw'n iawn

Mae'r gwaith trwsio uchod yn rhoi'r hyrwyddiad hwn yn iawn. Mae'r dudalen hon yn ymwneud â'r un nesaf.

ENGHRAIFFT · LLEOLIAD DYCHMYGOL

Mae gan bob canfyddiad ar dudalen 3 yr un achos. Nid y person a wnaeth y post yw'r person sy'n gallu newid y wefan, ac nid oes neb yn gwirio'r naill yn erbyn y llall cyn iddo fynd allan. Mae hynny'n normal mewn tafarn brysur. Mae modd ei drwsio hefyd heb gyflogi neb, drwy gytuno ar dri pheth a'u hysgrifennu ar wal y swyddfa.

Un perchennog

Rhywun y mae'n rhan o'i waith i ddweud ie cyn i hyrwyddiad fynd yn fyw. Nid y person a'i ddyluniodd. Yn eich achos chi, pwy bynnag sy'n gosod prisiau'r fwydlen yw hwnnw fwy na thebyg, oherwydd dyna'r un sy'n gwybod beth sy'n wir.

Un ffynhonnell gwirionedd

Un lle y mae'r pris, y dyddiad, yr amser a nifer y lleoedd wedi'u hysgrifennu, a phopeth arall yn copïo ohono. I chi, mae'r PDF bwydlen eisoes yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith hwn.

Un gwiriad cyn postio

Mae'r saith cwestiwn ar y dde, o'u hateb yn onest, yn cymryd tua deg munud. Byddent wedi dal chwech o'r saith canfyddiad yn yr adroddiad hwn.

Cyn i chi bostio: saith gwiriad

1. **A yw'r cynnig yn iawn?** Pris, dyddiad, amser, beth sydd wedi'i gynnwys, faint o leoedd, yn erbyn y ffynhonnell gwirionedd.
2. **A yw'r botwm yn dweud y gwir?** "Archebwch nawr" dim ond os oes archeb yn digwydd. Fel arall dywedwch "holwch" neu "ffoniwch ni".
3. **Dilynwch bob dolen a'r cod QR ar ffôn.** Eich ffôn eich hun, nid cyfrifiadur y swyddfa.
4. **Gwnewch y cyfan fel cwsmer.** Llenwch y ffurflen neu wnewch yr archeb, a gwiriwch fod y cadarnhad yn cyrraedd.
5. **Edrychwch ar y llun.** Ai eich un chi ydyw, neu a ydych yn gwybod o ble y daeth a bod gennych hawl i'w ddefnyddio?
6. **Darllenwch y Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd.** Yr un dyddiad, yr un pris, yr un cam nesaf.
7. **Pwy sy'n ei newid pan fydd y noson wedi gwerthu i gyd?** Enwch nhw nawr, a gwnewch yn siŵr eu bod yn gallu.

05 Beth sy'n digwydd nesaf

Tair ffordd o fynd o'r fan hon. Nid oes yr un ohonynt yn anghywir.

ENGHRAIFFT · LLEOLIAD DYCHMYGOL

Ei drwsio eich hunain

Mae popeth ar dudalen 4 wedi'i ddisgrifio'n ddigon plaen i'ch person gwe ei wneud, a gallwch wneud eitem 4 heddiw. Chi biau'r rhestr wirio ar dudalen 5. Hoffem glywed sut yr aeth hi o hyd.

Gofyn i ni ei drwsio

Dywedwch wrthym pa eitemau, ac rydym yn dechrau. Mae'r £245 yn dod oddi ar y bil cyn belled â'ch bod yn mynd ymlaen o fewn tri mis i'r adroddiad hwn, ac rydym yn dangos pob gwaith trwsio i chi yn gweithio ar ffôn cyn i ni ei gau.

Gofyn i ni ei gadw'n iawn

£95 y mis yw'r gofal. Unwaith y mis rydym yn gwirio'r tudalennau, y dolenni a'r llwybr archebu a enwebwch yn erbyn beth bynnag rydych yn ei hyrwyddo'r mis hwnnw, yn gwneud cywiriadau bach o fewn awr y cytunwyd arni, ac yn anfon nodyn byr atoch o'r hyn a ganfuwyd ac a newidiwyd. Gwiriad misol ydyw, nid gwylio rownd y cloc, a gallwch stopio pryd bynnag y dymunwch. Unwaith y bydd y gofal ar waith gallwn hefyd brawfddarllen pob post yn erbyn y wefan cyn iddo fynd allan, am dâl ychwanegol.

I fynd ymlaen

Atebwch yr e-bost y daeth hwn gydag ef, neu ffoniwch ni, a dywedwch pa eitemau. Os byddai'n well gennych siarad drwyddo'n gyntaf, mae'r alwad 30 munud sy'n dod gyda'r gwiriad hwn yn dal yn un i chi ei threfnu.

Adolygiad o'ch marchnata, eich brandio a'ch gwefan yw'r adroddiad hwn. Nid cyngor cyfreithiol, cliriad hysbysebu, archwiliad diogelu data na addewid o fwy o archebion ydyw. Lle mae angen arbenigwr ar rywbeth, rydym wedi dweud hynny. Mae'r Gymraeg mewn adroddiad go iawn yn cael ei hysgrifennu a'i gwirio gan siaradwr rhugl cyn iddi ein gadael.

Tudorvale Ltd, Porthmadog, Gwynedd. Rhif cwmni 10748925. Cymraeg a Saesneg. tudorvale.cymru/cy/gwiriad-ymgyrch